| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **9fed Mai 2014** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Datganiadau o Fuddiant** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y gofyniad ar Aelodau i ddatgan eu buddiant yng nghyswllt unrhyw fusnes a osodir ger eu bron ynghyd â chydymffurfio â'r gofynion hyn yn ymarferol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I hysbysu'r pwyllgor ynghylch y gofynion ar Aelodau mewn perthynas â datganiadau o fuddiant ynghyd â chydymffurfio a'r gofynion hyn yn ymarferol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried y materion a godir yn yr adroddiad hwn ynghyd â darparu hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol i Aelodau.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 (y Ddeddf) yn darparu y caiff Llywodraeth Cymru gyhoeddi Cod Ymddygiad Enghreifftiol i Aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu fod rhaid i'r Cod Enghreifftiol gynnwys darpariaethau mewn perthynas â datgan buddiannau gan Aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol cyn cymryd rhan mewn ystyried unrhyw fusnes y mae a wnelo'r awdurdod ag ef.

4.2 Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol)(Cymru) 2008 yn nodi'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar gyfer aelodau etholedig a chyfetholedig awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Cod Ymddygiad Cyngor Sir Ddinbych yn seiliedig ar y Cod Enghreifftiol hwn.

4.3 Mae Paragraff 11 o'r Cod Ymddygiad yn datgan, lle bo gan Aelod fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo'r awdurdod ag ef a bod yr Aelod yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i'r Aelod hwnnw ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

4.4 Mae Paragraff 11 hefyd yn mynnu, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn y cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd y cyfarfod pan ddatgelir y buddiant, dylid rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod y mae'n rhaid iddo gynnwys o leiaf manylion am y buddiant personol, manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef a llofnod yr Aelod.

4.5 Mae'r ffurflen a ddarperir i Aelodau ei chwblhau er mwyn darparu hysbysiad ysgrifenedig am fuddiant a ddatgelwyd i'r awdurdod ynghlwm fel Atodiad 1.

4.6 Mae'r Swyddog Monitro wedi adolygu'r ffurflenni datgan buddiant a gwblhawyd gan Aelodau a chafodd fod rhai anghysondebau o ran y modd y mae'r ffurflenni'n cael eu cwblhau.

4.7 Bydd Aelodau'n nodi yn Atodiad 1 bod gofyn i Aelodau sy'n cwblhau'r ffurflen roi eu henw a dileu fel y bo'n briodol i nodi p'un a ydynt yn Aelodau neu'n aelodau cyfetholedig o'r awdurdod. Nid ydynt bob amser yn dileu fel y bo angen a thra ei bod yn deg dweud bod modd cadarnhau statws Aelodau drwy swyddogion, o ystyried eu bod yn adnabod Aelodau ac aelodau cyfetholedig, gall ymddangos fel pe na bai'r ffurflen wedi'i chwblhau'n iawn pe caiff ei datgelu i'r Ombwdsman fel rhan o ymchwiliad i gŵyn mewn perthynas â datgan neu beidio â datgan buddiant.

4.8 Bydd Aelodau'n nodi ymhellach yn Atodiad 1 bod angen dileu fel y bo'n briodol p'un yw'r buddiant a ddatganwyd yn fuddiant personol neu'n fuddiant personol ac yn un sy'n rhagfarnu. Unwaith eto, bydd cofnodion y cyfarfod yn cofnodi p'un a oedd yr Aelod wedi datgan y buddiant personol neu un sy'n bersonol ac sy'n rhagfarnu ai peidio, ac yn wir p'un a adawodd yr Aelod yr ystafell yn dilyn y datgeliad o fuddiant personol ac sy'n rhagfarnu. Fodd bynnag, gallai'r Ombwdsman ofyn am y ffurflenni datgan fel rhan o unrhyw ymchwiliad ac yn wir gellir eu datgelu at ddibenion eraill a gall roi'r argraff nad yw ffurflenni wedi'u chwblhau'n iawn.

4.9 Bydd Aelodau hefyd yn nodi bod y ffurflen yn gofyn am gwblhau blwch gyda'r teitl Natur y Buddiant. Bwriad y blwch hwn yw darparu disgrifiad o'r buddiant y mae'r Aelod yn ei ddatgan. Ar y cyfan, mae hwn yn cael ei gwblhau'n iawn gan Aelodau, fodd bynnag, gall fod peth dryswch i rai Aelodau nad ydynt efallai wedi darparu disgrifiad llawn, neu mewn rhai achosion wedi disgrifio natur y buddiant fel "personol" neu "bersonol ac sy'n rhagfarnu".

4.10 Gall Aelodau ystyried y gellid gwella cynllun y ffurflen er mwyn ei gwneud yn haws i Aelodau ei chwblhau. Fel arall, gall Aelodau awgrymu y dylid cynnig sesiwn hyfforddiant penodol, byr iawn, neu nodyn briffio i Aelodau i sicrhau bod y ffurflenni datgan buddiant yn cael eu cwblhau'n gyflawn.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid oes gan y penderfyniad effaith uniongyrchol ar flaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes unrhyw gostau sydd â chyswllt uniongyrchol â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) a gynhaliwyd mewn perthynas â'r penderfyniad hwn?**

7.1 Nid oes ar yr adroddiad hwn angen asesiad effaith ar gydraddoldeb.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Nid yw'r mater hwn wedi cael ei adrodd yn unman arall ac ni fu ymgynghoriad yn ei gylch.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg sy'n codi o'r adroddiad.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y risg i Aelodau yw, o ran unigolyn sy'n darllen ffurflen ddatgelu, os nad yw wedi'i chwblhau'n llawn, hwyrach na fydd yn deall yn syth beth yw natur y buddiant sydd wedi'i ddatgan gan yr Aelod a gallai hyn achosi dryswch pe bai'r datganiad hwnnw, yn ddiweddarach, yn destun unrhyw gŵyn neu anghydfod. Bydd darparu hyfforddiant ychwanegol a/neu nodyn briffio yn cynorthwyo ac yn atgoffa Aelodau i sicrhau bod y ffurflenni'n cael eu cwblhau'n gywir.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Erthygl 9.2 o Gyfansoddiad y Cyngor Sir.